# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom** | **P Gareth Williams** |
| Dyddiad: Dydd Llun, 15 Mai 2023 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 13.30 | 0300 200 6565 |
| | SeneddDCC@senedd.cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru): Sesiwn Dystiolaeth gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd

(13.30 - 14.30) (Tudalennau 1 - 21)

Julie James AS, Gweinidog Newid Hinsawdd

Helen Rowley, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

Rhian Williams, Rheolwr y Bil, Llywodraeth Cymru

Olwen Spiller, Dirprwy Bennaeth Diogelu'r Amgylchedd, Llywodraeth Cymru

Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Datganiad o Fwriad Polisi

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-15-23 – Papur 1 – Briff cyfreithiol

LJC(6)-15-23 – Papur 2 – Briff ymchwil [Saesneg yn unig]

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(14.30 - 14.35)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3.1 SL(6)352 - Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 22 - 27)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-15-23 - Papur 3 - Adroddiad

LJC(6)-15-23 - Papur 4 - Ymateb Llywodraeth Cymru

**3.2 SL(6)353 - Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12 a Diwygio Canlyniadol) 2023**

(Tudalennau 28 - 31)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-15-23 - Papur 5 - Adroddiad

LJC(6)-15-23 - Papur 6 - Ymateb Llywodraeth Cymru

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.35 - 14.40)

**4.1 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Drafnidiaeth**

(Tudalennau 32 - 33)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-15-23 - Papur 7 - Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, 9 Mai 2023

**4.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Iechyd Planhigion ac Amodau Ffytoiechydol (Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw a Phlâu Planhigion) (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 34 - 35)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-15-23 - Papur 8 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, 10 Mai 2023

## 5 Papurau i'w nodi

(14.40 - 14.45)

**5.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio**

(Tudalennau 36 - 39)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-15-23 - Papur 9 - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Ebrill 2023

**5.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

(Tudalennau 40 - 41)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-15-23 - Papur 10 - Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 5 Mai 2023.

**5.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Amddiffyn rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus**

(Tudalennau 42 - 44)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-15-23 - Papur 11 - Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 9 Mai 2023

LJC(6)-15-23 - Papur 12 - Llythyr at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, 3 Mai 2023

**5.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Bil Amaethyddiaeth (Cymru)**

(Tudalennau 45 - 47)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-15-23 - Papur 13 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, 9 Mai 2023

**5.5 Datganiadau yn ymwneud â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

(Tudalennau 48 - 49)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-15-23 – Papur 14 – Datganiad gan Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Fusnes a Masnach, 10 Mai 2023 [Saesneg yn unig]

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.45)

## 7 Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru): Trafod y dystiolaeth

(14.45 - 15.00)

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig

(15.00 - 15.15) (Tudalennau 50 - 58)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-15-23 – Papur 15 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 9 Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) – y datblygiadau diweddaraf

(15.15 - 15.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# SL(6)352 – Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae Deddf Addysg (Cymru) 2014 (**Deddf 2014**) yn rhoi swyddogaethau i Gyngor y Gweithlu Addysg (**y Cyngor**) mewn perthynas â phersonau y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda'r Cyngor. Mae'r categorïau o bersonau cofrestredig wedi'u nodi yn Nhabl 1 ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014.

Mae Rhan 6 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Tabl 1 i ychwanegu'r categorïau a ganlyn o bersonau cofrestredig:

- athro neu athrawes ysgol annibynnol;
- gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol;
- athro neu athrawes sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol;
- gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn hwn yn darparu na chaniateir i wasanaethau athro neu athrawes ysgol annibynnol gael eu darparu mewn neu ar ran ysgolion annibynnol ond gan bersonau sydd wedi eu cofrestru â'r Cyngor yn y categori athro neu athrawes ysgol annibynnol. Mae'r Rhan hon hefyd yn darparu mai dim ond personau sydd wedi eu cofrestru yn y categori gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol a gaiff gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau athro neu athrawes ysgol annibynnol mewn neu ar ran ysgol annibynnol. Fodd bynnag, nid yw'r gofynion i gofrestru a nodir yn y Rhan hon yn gymwys i bersonau sy'n darparu'r gwasanaethau neu'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau fel gwirfoddolwyr. Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas ag athrawon sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol a gweithwyr cymorth i ddysgwyr.

Mae Rhan 4 yn darparu bod person yn gymwys i gofrestru dros dro fel gweithiwr ieuenctid os yw'n gweithio tuag at ennill cymhwyster gweithiwr ieuenctid. Hefyd, mae person yn gymwys i gofrestru dros dro fel gweithiwr cymorth ieuenctid os yw'n gweithio tuag at ennill cymhwyster gweithiwr cymorth ieuenctid.

Mae Rhan 4 hefyd yn gosod dyletswyddau ar y Cyngor i lunio a chynnal rhestr o gymwysterau gweithwyr ieuenctid a chymwysterau gweithwyr cymorth ieuenctid. Rhaid i'r Cyngor hysbysu Gweinidogion Cymru, yn flynyddol, am unrhyw ddiwygiadau y dylid eu gwneud i'r rhestr o gymwysterau gweithwyr ieuenctid a'r rhestr o gymwysterau gweithwyr cymorth ieuenctid fel y'u nodir yn Atodlenni 1 a 2 i Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016 (**Gorchymyn 2016**).

Mae Rhan 5 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 (**Rheoliadau 2015**) mewn perthynas ag athrawon ysgol a

gweithwyr cymorth dysgu. Mae'r diffiniad o "gwaith penodedig" yn rheoliad 17 o Reoliadau 2015 wedi ei ddiwygio er mwyn gwneud yn siŵr bod pob athro sy'n bennaeth neu sydd â rôl arwain uwch arall yn cael ei gwmpasu yn y categori athro neu athrawes ysgol. Mae'r diwygiadau hefyd yn symleiddio'r gofynion mewn perthynas â gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion ac yn ei gwneud yn glir nad oes rhaid i athro neu athrawes ysgol gofrestru yn y categori gweithiwr cymorth dysgu hefyd oni bai bod y person hwnnw wedi'i gyflogi fel gweithiwr cymorth i ddysgwyr mewn ysgol yng Nghymru neu'n ymwneud fel arall â'r rôl. Mae'r diwygiadau hefyd yn diwygio'r gofynion mewn perthynas â gweithwyr cymorth dysgu mewn addysg bellach i'w gwneud yn glir nad oes rhaid i athro neu athrawes addysg bellach gofrestru yn y categori gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach hefyd oni bai bod y person hwnnw wedi'i gyflogi fel gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad addysg bellach yng Nghymru.

Mae Rhan 7 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) 2017 er mwyn gwneud darpariaeth mewn perthynas â swm y ffi gofrestru sy'n daladwy gan y categorïau cofrestru newydd.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae Rhan 6 o'r Gorchymyn yn diwygio Atodlen 2 i Ddeddf 2014 drwy ychwanegu pedwar categori newydd o bersonau cofrestredig:

- athro neu athrawes ysgol annibynnol;
- gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol;
- athro neu athrawes sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol;
- gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn yn ymdrin â dehongli'r Gorchymyn. Mae erthygl 2 yn cyfeirio at ystyr "athro neu athrawes ysgol annibynnol" ac "athro neu athrawes sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol" yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014. Fodd bynnag, nid yw'n cyfeirio at ystyr "gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol" neu "gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol" yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014.

Nid yw'n glir pam mae dau o'r categorïau newydd wedi'u cynnwys yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn tra nad yw'r ddau gategori newydd arall wedi'u cynnwys.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae Atodlen 1 i Orchymyn 2016 yn nodi rhestr o gymwysterau gweithwyr ieuenctid cymeradwy (h.y. cymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo at ddibenion cofrestru fel gweithiwr ieuenctid).

Mae'r Gorchymyn hwn yn diweddaru'r rhestr; fodd bynnag, mae'r Gorchymyn hwn yn cynnwys dau gymhwyster sydd eisoes ar y rhestr, sef:

- gradd israddedig mewn datblygu ieuenctid a chymunedol a ddyfernir gan Bradford College;
- gradd israddedig mewn gwaith ieuenctid a chymunedol a ddyfernir gan University of Bedfordshire.

Nid yw'n glir pam mae'r cymwysterau hyn wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn hwn.

Rydym hefyd yn nodi'r dull anghyson a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn i ddiweddaru'r rhestr. Er enghraifft, mae dau gorff dyfarnu newydd (University of Bolton a University of Wolverhampton) wedi'u cynnwys mewn perthynas â'r radd israddedig mewn datblygu cymunedol a gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, defnyddiwyd gwahanol ddulliau o gynnwys y cyrff dyfarnu hynny, sy'n golygu y bydd y rhestr yng Ngorchymyn 2016 bellach yn edrych fel hyn (testun coch yn dangos y testun a fewnosodir gan y Gorchymyn hwn):

| Cymhwyster mewn perthynas [â] Lloegr | Corff dyfarnu |
|---|---|
| Gradd israddedig mewn datblygu cymunedol a gwaith ieuenctid | Ruskin College, Oxford<br>University of Wolverhampton |
| Gradd israddedig mewn datblygu cymunedol a gwaith ieuenctid | University of Bolton |

Efallai y byddai wedi bod yn gliriach pe bai'r cofnod wedi'i ddiweddaru ar gyfer y cymhwyster hwn yn edrych fel hyn:

| Cymhwyster mewn perthynas [â] Lloegr | Corff dyfarnu |
|---|---|
| Gradd israddedig mewn datblygu cymunedol a gwaith ieuenctid | Ruskin College, Oxford<br>University of Bolton<br>University of Wolverhampton |

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Teitl y Gorchymyn hwn yw "Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023". Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y Gorchymyn hwn yn gwneud mwy na dim ond creu categorïau ychwanegol o bersonau y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda'r Cyngor. Er enghraifft:

- Mae Rhan 4 o'r Gorchymyn hwn yn ymdrin â gofynion cymwysterau mewn perthynas â gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid. Mae "gweithiwr ieuenctid" a "gweithiwr cymorth ieuenctid" eisoes yn bodoli fel categorïau cofrestru; nid categorïau ychwanegol yw'r rhain.
- Mae Rhan 5 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio gofynion cofrestru o fewn y categori sydd eisoes yn bodoli, sef "athro neu athrawes ysgol"; nid yw Rhan 5 yn creu categori cofrestru ychwanegol.

Felly, tybed a yw teitl y Gorchymyn hwn yn adlewyrchu'n ddigonol yr hyn y mae'r Gorchymyn hwn yn ei wneud.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae erthygl 11 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio'r disgrifiad o "gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol" yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014. Mae erthygl 11 yn diwygio'r disgrifiad fel bod y cyfeiriad presennol at weithiwr cymorth dysgu mewn ysgol yn 'darparu' gwasanaethau yn cael ei newid i gyfeiriad at weithiwr cymorth dysgu mewn ysgol yn 'cefnogi' y gwaith o ddarparu gwasanaethau.

Mae'r newid hwnnw, yn ôl y disgwyl, hefyd yn cael ei adlewyrchu yn y diwygiadau a wnaed i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015.

Fodd bynnag, nodwn nad yw'r un newid wedi'i wneud i'r disgrifiadau o "gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach" a "gweithiwr cymorth ieuenctid" yn Atodlen 2 i Ddeddf 2014 – mae'r ddau ddisgrifiad hyn yn parhau i gyfeirio at weithwyr cymorth yn 'darparu' gwasanaethau.

O ystyried nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi unrhyw esboniad o'r newid a wnaed mewn perthynas â "gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol", nid yw'n glir a ddylid gwneud yr un newid o ran y disgrifiadau o "gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach" a "gweithiwr cymorth ieuenctid".

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bob un o'r pwyntiau adrodd.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 9 Mai 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023**

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwynt technegol hwn, ond rydym o'r farn bod ystyr y termau o dan sylw yn ddigon clir fel na fyddai'r darllenydd yn cael ei gamarwain.

Pwynt Craffu Technegol 2: Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod dyblygu diangen mewn perthynas â'r cofnodion a nodir. Er nad oes perygl i'r gwall gamarwain y darllenydd, bydd y mater yn cael ei gywiro pan gaiff y Gorchymyn ei ddiwygio nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cytuno bod dulliau drafftio ychydig yn wahanol wedi eu defnyddio. Nid ydym o'r farn y bydd y darllenydd yn cael ei gamarwain gan fod yr effaith gyfreithiol yn glir ac yn gywir. Nid ydym yn bwriadu diwygio'r darpariaethau hyn ond byddwn yn cofio am hyn ar gyfer unrhyw newidiadau i'r Gorchymyn yn y dyfodol.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 1: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt craffu ar rinweddau, ond mae Llywodraeth Cymru wedi ei bodloni bod y teitl yn rhoi disgrifiad digonol o natur yr offeryn statudol. Mae'r Gorchymyn yn mewnosod sawl categori newydd o weithwyr y mae'n ofynnol iddynt gofrestru â'r CGA ac mae'r diwygiadau a wneir i gategorïau o weithwyr cofrestredig sydd eisoes yn bodoli yn gymharol fân, gan roi gwell eglurder i ofynion sydd eisoes yn bodoli. Nid oes gofyniad bod rhaid i'r teitl ddisgrifio'n llawn bob darpariaeth a wneir gan yr offeryn statudol ac felly mae Llywodraeth Cymru wedi ei bodloni bod y teitl, at ei gilydd, yn adlewyrchu'r hyn y mae'r Gorchymyn yn ei wneud yn ddigonol.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt craffu ar rinweddau. Nid oes bwriad i ddiwygio'r diffiniadau "gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach" na "gweithiwr cymorth ieuenctid". Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn nad yw'n arfer orau mabwysiadu ffurf wahanol ar eiriau i gyfleu yr un cysyniad. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn achosi digon o ansicrwydd i fod angen ei gywiro, ond byddwn yn cofio am hyn wrth ddiwygio'r OS yn y dyfodol.

# SL(6)353 – Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12 a Diwygiad Canlyniadol) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Atodlen 12 i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ("Deddf 2016"). Mae Atodlen 12 i Ddeddf 2016 yn ymdrin â throsi tenantiaethau a thrwyddedau a oedd yn bodoli cyn i Ddeddf 2016 ddod i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

O dan Atodlen 12 o Ddeddf 2016, mae'n ofynnol i landlord contract meddiannaeth wedi'i drosi roi datganiad ysgrifenedig o'r contract hwnnw wedi'i drosi i ddeiliad y contract cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod penodedig ("y cyfnod darparu gwybodaeth"), hynny yw, mae'n rhaid iddo gael ei roi erbyn 31 Mai 2023. Datgymhwyswyd y gofyniad i ddarparu datganiad ysgrifenedig pan fo newid o ran pwy yw deiliad y contract mewn perthynas â chontractau wedi'u trosi yn ystod y cyfnod darparu gwybodaeth.

Mae'r diwygiadau i Atodlen 12 i Ddeddf 2016, felly, yn darparu:

- pan fo newid o ran pwy yw deiliad contract (o dan gontract wedi'i drosi neu gontract sy'n cymryd contract arall) yn ystod y cyfnod darparu gwybodaeth, bydd yn ofynnol i landlord ddarparu datganiad ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau o 1 Mehefin 2023 neu, os yn hwyrach, y diwrnod y mae'r landlord yn dod yn ymwybodol o'r newid i ddeiliad y contract;
- pan fo contract sy'n cymryd lle contract arall yn dod i fodolaeth yn ystod y cyfnod darparu gwybodaeth, bydd gan y landlord 14 o ddiwrnodau o 1 Mehefin 2023 i ddarparu datganiad ysgrifenedig; a
- pan fod contract sy'n cymryd lle contract arall yn dod i fodolaeth ar ôl y cyfnod darparu gwybodaeth, bydd gan y landlord 14 o ddiwrnodau o'r dyddiad meddiannu o dan y contract hwnnw sy'n cymryd lle'r hen un i ddarparu datganiad ysgrifenedig.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Atodlen 12 a Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai fod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Craffu Technegol

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2002(vii)** – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Yn y testun Cymraeg, yn rheoliad 4(a), yn yr is-baragraff newydd (1A), mae'r gair "hunaniaeth" ar ddechrau'r is-baragraff wedi'i gyfieithu'n wahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd eisoes yn adran 31 o Ddeddf 2016, ac mewn mannau eraill yn Neddf 2016 megis yn adrannau 39(2) a 42(2).

Mae hyn yn golygu bod y gair "hunaniaeth" yn cael ei gyfieithu'n wahanol ar ddechrau'r is-baragraff newydd (1A) o'i gymharu â'r testun o adran 31(2), a ddyfynnir i'w addasu ar ddiwedd yr is-baragraff hwnnw, er eu bod yn cyfeirio at yr un peth.

Efallai y bydd hyn yn peri dryswch i rywun sy'n darllen y testun Cymraeg. Er y cydnabyddir y gallai "hunaniaeth" fod yn ddewis dilys ar gyfer "identity" wrth gyfieithu deddfwriaeth, gan ddibynnu ar y cyd-destun, byddai'n ymddangos yn well i destun newydd a fewnosodwyd fod yn gyson ag arddull a geirfa bresennol y ddeddfwriaeth wreiddiol. Byddai dull o'r fath hefyd yn gyson â chanllawiau drafftio Llywodraeth Cymru – gweler Drafftio Deddfau i Gymru, paragraff 7.30.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ysgrifennodd y Gweinidog Newid Hinsawdd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 3 Ebrill 2023 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r llythyr yn nodi fel a ganlyn:

> *Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â'r amserlenni ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn cysylltiad â gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ('Deddf 2016').*
>
> …
>
> *Ar wahân i hynny, mae'r angen i ddiwygio Atodlen 12 i Ddeddf 2016 cyn 31 Mai 2023, ynglŷn â chyhoeddi datganiadau ysgrifenedig o gontractau meddiannaeth, hefyd wedi'i nodi."*

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

*O dan baragraff 11(1) o Atodlen 12, mae'n ofynnol i landlord contract meddiannaeth wedi'i drosi roi datganiad ysgrifenedig o'r contract hwnnw wedi'i drosi i ddeiliad y contract cyn diwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau â'r diwrnod penodedig ("y cyfnod darparu gwybodaeth"), hynny yw, mae'n rhaid iddo gael ei roi erbyn 31/05/23. Darparodd baragraff 11(1A) o Atodlen 12 (a fewnosodwyd gan Ddeddf 2021) fod y gofyniad yn adran 31(2) o Ddeddf 2016 (i ddarparu datganiad ysgrifenedig pan fo newid o ran pwy yw deiliad y contract) wedi'i ddatgymhwyso mewn perthynas â chontractau wedi'u trosi yn ystod y cyfnod darparu gwybodaeth.*

*Fodd bynnag, daeth i'r amlwg nad oedd Atodlen 12 yn ei wneud yn glir y ddarpariaeth ynghylch gofynion rhoi datganiadau ysgrifenedig ar ôl diwedd y cyfnod darparu gwybodaeth ac yn enwedig pan fo, ar ddiwedd contract wedi'i drosi, gontract sy'n cymryd lle contract arall yn codi. Mae contract sy'n cymryd lle contract arall yn fath o gontract (a bennir ym mharagraff 32 o Atodlen 12) sy'n codi ar ôl i gontract wedi'i drosi ddod i ben."*

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn egluro nad oes unrhyw ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal *"Yn sgil natur dechnegol yr OS"*. Nid yw'n glir a yw Llywodraeth Cymru wedi hyrwyddo'r gwelliannau mewn perthynas â datganiadau ysgrifenedig o ystyried bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi nad oedd y sefyllfa'n glir.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt Craffu Technegol a'r ail bwynt Craffu Rhinweddau.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 9 Mai 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygio Atodlen 12 a Diwygiad Canlyniadol) 2023**

Pwynt Craffu Technegol 1: Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y paragraff newydd 11(1A) o Atodlen 12 (a fewnosodwyd gan reoliad 4(a)) yn cyflawni'r effaith gyfreithiol angenrheidiol ac nad oes amwysedd o ran yr ystyr ac, o ganlyniad, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen diwygiad. Mae Llywodraeth Cymru yn diolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ei ddiwydrwydd, yn nodi'r sylwadau a wnaed ac yn ymdrechu i lynu at y canllawiau drafftio a nodir yn "Drafftio Deddfau i Gymru" lle bynnag y bo modd.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 3: Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu dolen i'r Rheoliadau drafft a'r Memorandwm Esboniadol â chynrychiolwyr landlordiaid ac asiantiaid gosod eiddo gan gynnwys Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl, Propertymark a Rhentu Doeth Cymru. Yn amodol ar gytundeb y Senedd i'r Rheoliadau, mae Rhentu Doeth Cymru wedi cytuno i rannu diweddariad yn uniongyrchol â landlordiaid. Byddwn hefyd yn diweddaru'r canllawiau Rhentu Cartrefi perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol i landlordiaid ynghylch y mater hwn.

**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.cymru

9 Mai 2023

Annwyl Huw,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Drafnidiaeth**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi am gyfarfod agoriadol y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Drafnidiaeth, a fydd yn cael ei gynnal ar 24 Mai.

Fi fydd yn cadeirio'r cyfarfod rhithiol hwn lle rwy'n rhagweld y bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar deithio llesol ac ar rannu data.

Byddaf yn rhoi diweddariad ichi ar ôl y cyfarfod.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad; y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, y Llywydd; y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith.

Yn Gywir,



Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Eitem 4.2

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

10 Mai 2023

Annwyl Huw,

Cyfeiriaf at fy llythyr dyddiedig 1 Ebrill 2023 a anfonwyd atoch. Hoffwn roi gwybod i'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol osod Rheoliadau Iechyd Planhigion ac Amodau Ffytoiechydol (Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw a Phlâu Planhigion) (Diwygio) 2023 mewn perthynas â Chymru. Rwyf i wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig y gellir dod o hyd iddo yma: https://senedd.cymru/media/3jzjsg3a/ws-ld15813-w.pdf.

Mae rhan o'r Rheoliadau yn croestorri â pholisi datganoledig a bydd yn gymwys i Gymru, ac eithrio mesurau sy'n ymwneud â Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw, sy'n ymestyn i Gymru a Lloegr ond sy'n gymwys o ran Lloegr yn unig. Gallai'r darpariaethau gael eu gwneud gan Weinidogion Cymru wrth arfer ein pwerau ein hunain. Mae'r Rheoliadau yn ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Gwnaed y Rheoliadau wrth arfer y pwerau a roddir gan Reoliad (EU) 2016/2031. Roedd yr Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac fe'i gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 2 Mai 2023, gyda dyddiad cychwyn o 24 Mai 2023.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i fwyafrif o'r diwygiadau fod yn berthnasol i Gymru. Ar hyn o bryd, dim ond i ardal sy'n cwmpasu ardal Llundain y mae'r prif newidiadau a gyflwynir yn y Rheoliadau (y newidiadau sy'n ymwneud â Gwyfyn Ymdeithiwr y Derw) yn berthnasol. Mae'r newidiadau eraill yn y Rheoliadau yn fân a thechnegol eu natur. Byddai diwygio deddfwriaeth bresennol sydd ar gyfer Prydain Fawr gyfan yn ogystal ag unrhyw wahaniaethau mewn rheoliadau rhwng Cymru a Lloegr yn achosi mwy o ddryswch a phwysau ar gyrff a diwydiannau cyflenwi. Y tro hwn, rwyf o'r farn nad y ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau angenrheidiol fyddai deddfu ar wahân i Gymru ac na fyddai hyn ychwaith yn ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru gan ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

O ganlyniad felly, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn. O ran y mater hwn, nid oes gwahaniaethau polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Yn gywir

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/1145/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

25 Ebrill 2023

Annwyl Huw,

Llawer o ddiolch i chi ac aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ystyried y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm gwreiddiol, y memorandwm diwygiedig a Memorandwm rhif 2) sy'n ymdrin â Bil Ffyniant Bro ac Adfywio'r DU (y Bil).

Rwy'n croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar 24 Chwefror ac yn nodi'ch cais am fy ymateb i'r argymhellion. Rwy'n ymddiheuro am yr oedi cyn rhoi'r ymateb hwnnw i chi.

**Argymhelliad 1. Dylai'r Gweinidog gadarnhau a oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau a nodwyd ym mharagraff 59 o'r Memorandwm diwygiedig ac, os nad oes ei angen, pam y mae gan Lywodraeth Cymru farn wahanol i Lywodraeth y DU.**

Nid yw'r cymalau a nodwyd ym mharagraff 59 o'r Memorandwm diwygiedig yn 'ddarpariaeth berthnasol' am eu bod yn dod o dan yr eithriad a nodir yn Rheol Sefydlog 29.1(i). Hynny yw, eu bod yn ddiwygiadau deilliadol neu ganlyniadol (i'r sefyllfa ddeddfwriaethol bresennol) i sefyllfa a ddargedwir (yn yr achos hwn ddarpariaeth sy'n berthnasol mewn perthynas â Lloegr yn unig). O'r herwydd nid oes angen cydsyniad Senedd Cymru arnynt. Mae Llywodraeth y DU yn cytuno nad yw'r darpariaethau'n newid cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru na chymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Rwy'n ymddiheuro os yw eu cynnwys fel 'gwelliannau eraill' ym mharagraff 59 o'r Memorandwm diwygiedig wedi achosi dryswch.

**Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog esbonio pam y mae'n ceisio diwygiadau i'r Bil i geisio pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chynllunio darpariaethau data ac adroddiadau canlyniadau amgylcheddol, yn hytrach na negodi bod y darpariaethau hynny'n gymwys i Loegr yn unig.**

Rwyf eisoes wedi nodi y gallai'r darpariaethau mewn perthynas â'r darpariaethau data cynllunio ac adroddiadau canlyniadau amgylcheddol fod yn fuddiol, ac roeddwn yn agored i'm darbwyllo o ran eu cymhwyso yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n dal o'r farn honno. Mae'r sefyllfa o ran yr Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA) yng Nghymru yn un gymhleth iawn, gyda Chyfarwyddebau perthnasol yr UE sy'n llywodraethu'r maes hwn yn cael eu rhoi ar waith trwy ystod gymhleth o wahanol brosesau, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol ac Offerynnau Statudol a wnaed o dan adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 (ECA) ar gyfer Cymru a Lloegr, neu Gymru'n unig, ac o dan y pwerau presennol, megis adran 71A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (y TCPA). Mae'r system yn gymhleth gan fod yr EIA yn rhychwantu nifer fawr iawn o feysydd polisi, yn amrywio o gynllunio, dŵr, y môr i amaethyddiaeth a thrafnidiaeth. Yn bwysicach fyth dyw'r ddeddfwriaeth ddim yn gallu addasu i amgylchiadau sy'n newid gan nad oes gan y mwyafrif o'r meysydd polisi hyn ddeddfwriaeth sylfaenol i allu eu diwygio yn y dyfodol. Felly, yr hyn sydd gennym yw'r hyn sydd gennym. Mae'n werth nodi hefyd y gallai fod rhai pwerau i gadw a chymhathu cyfraith yr UE a ddargadwyd mewn meysydd datganoledig drwy'r pwerau ym Mesur Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygio a Dirymu) Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'r pwerau hyn yn gymhleth ac yn gyfyngedig o ran cwmpas ac amser, ac efallai na fyddant yn rhoi'r gallu i ddiwygio'r pwerau sy'n dod i ben. Mae'r Bil yn mynd rhagddo trwy Senedd y DU ar hyn o bryd a gallai newid.

Er ei bod yn amlwg bod mwyafrif y meysydd polisi o fewn cymhwysedd datganoledig, mae agweddau eraill ar y drefn EIA bresennol yn ymwneud â materion a ddargadwyd ac sydd felly i'w trin gan Lywodraeth y DU ar lefel Cymru a Lloegr, er enghraifft prosiectau seilwaith o bwys cenedlaethol ac i ddiogelwch y wlad. Pe bai Mesur Senedd Cymru yn ceisio gwneud darpariaeth o'r fath, byddai angen ystyried i ba raddau yr ymdrinnid â'r mater fel un wedi'i ddargadw.

Ar sail hyn mae fy swyddogion wedi bod yn trafod â Llywodraeth y DU ynghylch beth sydd angen ei wneud i wneud y darpariaethau'n dderbyniol ac iddynt ddod â buddion i Gymru. Wrth gwrs, pe na cheid y buddion hynny, byddwn yn ceisio sicrhau bod y darpariaethau'n gymwys i Loegr yn unig.

**Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog egluro a fyddai'n bosibl i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei Bil ei hun sy'n cynnwys cynllunio darpariaethau data a/neu adroddiadau canlyniadau amgylcheddol ac, os na fyddai'n bosibl, beth yw'r rhwystrau i ddull o'r fath.**

Byddai Llywodraeth Cymru yn gallu cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol yn cynnwys darpariaethau data cynllunio ac / neu adroddiadau canlyniadau amgylcheddol.

Cyhoeddir y rhaglen ddeddfwriaethol yn unol â datganiad Prif Weinidog Cymru. Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi cyhoeddi rhaglen hefyd i wella hygyrchedd Cyfraith Cymru. O dan y rhaglenni hyn, rydym ar hyn o bryd yn bwrw yn ein blaenau â'r Bil Cydsynio Seilwaith a'r Bil Cydgrynhoi Cynllunio. Mae'r Bil Cydsynio Seilwaith yn gul iawn o ran ei gwmpas ac yn ymdrin yn unig â symleiddio'r broses gydsynio ar gyfer mathau penodedig o seilwaith mawr ar y môr ac felly ni allai gynnwys newidiadau ar draws cymaint o wahanol feysydd polisi. Mae'r Bil Cydgrynhoi Cynllunio yn cydgrynhoi deddfwriaeth o dan gylch gwaith rheol sefydlog 26C yn unig, felly ni all hwnnw chwaith gynnwys y darpariaethau hyn.

**Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog ddarparu diweddariad ynghylch pwy, yng Nghymru, y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gallai fod yn 'awdurdod cynllunio perthnasol' at ddibenion Pennod 1 o Ran 3 o'r Bil.**

Bydd y diffiniad o 'awdurdod cynllunio perthnasol' yn gymwys mewn dwy sefyllfa yng Nghymru. Mae'r gyntaf yn ymwneud â materion sydd heb eu datganoli. Gallai rheoliadau sy'n effeithio ar ddata cynllunio, a wneir o dan ddarpariaethau'r Bil, gael eu cymhwyso i awdurdodau cynllunio lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru wrth iddynt ymgymryd â'u rôl ymgynghorol, gan ymateb i Brosiectau Seilwaith o Bwys Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008.

Yr ail sefyllfa y byddai 'awdurdod cynllunio perthnasol' yn berthnasol iddi yw’r awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau o dan Ran 5 o'r Bil pan gâi ei gyflwyno (Rhan 6 bellach). Gall swyddogaethau olygu naill ai paratoi Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol (EORs), cyfrannu at adroddiadau o'r fath neu eu hystyried ochr yn ochr â chais am ganiatâd, cydsyniad neu gymeradwyaeth arall.

Cynigir paratoi EORs yn lle’r Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA) a’r Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA). Wrth i Gymal 120 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd) geisio atal glastwreiddio’r amddiffyniad amgylcheddol, rhagwelir y byddai rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol i ddiffinio pa awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau o dan y drefn newydd yn adlewyrchu'r awdurdodau hynny sy'n ymwneud â hyn ar hyn o bryd.

Ar draws y rhan fwyaf o'r sectorau y mae EIAau yn cael eu defnyddio, daw Cyfoeth Naturiol Cymru a Gweinidogion Cymru o dan y diffiniad o 'awdurdod cynllunio perthnasol'. Byddai awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, byrddau draenio mewnol, awdurdodau harbwr a chynghorau cymuned hefyd yn dod o dan y diffiniad.

Yr awdurdodau cyhoeddus sy’n defnyddio SEAau ar hyn o bryd ac felly debygol o gael eu diffinio fel 'awdurdodau cynllunio perthnasol' yw’r rheini sy'n paratoi cynlluniau a rhaglenni perthnasol. Y cynlluniau a rhaglenni hyn sy'n gosod y fframwaith ar gyfer cydsynio prosiectau datblygu yn y dyfodol mewn nifer o feysydd polisi: amaethyddiaeth; coedwigaeth; pysgodfeydd; egni; diwydiant; cludiant; rheoli gwastraff; rheoli dŵr; telathrebu; twristiaeth; cynllunio gwlad a thref; a defnydd tir.

**Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog egluro beth a olygir gan y frawddeg "Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod yr holl ddeddfwriaeth berthnasol i Gymru yn unig hefyd yn cael ei chynnwys" ym mharagraff 13.1 o'i llythyr ar 25 Tachwedd 2022. Wrth wneud hynny, dylai esbonio effaith ymarferol y newid mae'n ymddangos y mae’n ei geisio i gymal 130 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd)**

Mae cymal 130 fel y'i cyflwynwyd (cymal 152 bellach) yn diffinio'r ddeddfwriaeth asesu amgylcheddol bresennol sy'n trosi neu'n ymgorffori'r Cyfarwyddebau SEA ac EIA. Mae Cymal 127 fel y'i cyflwynwyd (cymal 149 bellach) yn sicrhau bod deddfwriaeth EOR a wneir o dan y rhan hon yn gallu rhyngweithio â’r ddeddfwriaeth asesu amgylcheddol bresennol, yn ogystal â chyda'r Rheoliadau Cynefinoedd sy'n destun y cymalau atal glastwreiddio. Mae cymal 120 fel y'i cyflwynwyd (cymal 142 bellach) yn ei gwneud yn bosib gwneud rheoliadau os yw'n fodlon na fydd gwneud y rheoliadau hynny’n arwain at gyfraith amgylcheddol sy’n darparu lefel gyffredinol o amddiffyniad amgylcheddol sy'n llai na'r hyn a ddarperir gan gyfraith amgylcheddol adeg pasio’r Ddeddf hon.

Gan fod y darpariaethau'n ceisio peidio â glastwreiddio’r gyfraith bresennol, fe’i ystyrir yn bwysig bod lefel diogelu'r amgylchedd a geir gan gyfraith Cymru yn cael ei chynnal. Gwneid hynny drwy sicrhau bod cymal 130 o'r Bil (fel y'i cyflwynwyd) yn cyfeirio at hynny.

**Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog egluro a yw wedi ceisio gwrthdroi'r ddarpariaeth yng nghymal 128(2) (fel y'i cyflwynwyd) yn hepgor adran 71A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sy'n cynnwys pŵer gweithredol presennol Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn cysylltiad ag ystyried effeithiau amgylcheddol tebygol datblygiad arfaethedig. Os nad yw’n gwneud hynny, dylai'r Gweinidog esbonio'r rhesymau pam.**

Yn unol â’r ymateb i argymhelliad 2, os na fyddai’r cynigion yn dod â buddion i Gymru, byddaf am ofyn bod y darpariaethau’n gymwys i Loegr yn unig.

**Argymhelliad 7. Dylai'r Gweinidog ddatgan a fydd cymal 112 (fel y'i cyflwynwyd) a gwelliant NC60 (Pleidleisiau strydoedd: ardoll seilwaith cymunedol) yn cael effaith ar waith drafftio'r Bil Cydgrynhoi ar gyfraith cynllunio yr ydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn paratoi i'w chyflwyno i'r Senedd.**

Mae'r cymalau hyn yn gwneud gwelliannau cyfreithiol technegol ac esboniadol yn unig. Bydd y Bil Cydgrynhoi Cynllunio sydd ar ddod yn cydgrynhoi'r gyfraith sy'n effeithio ar Gymru adeg ei gyflwyno. Os yw cymal 112 (fel y'i cyflwynwyd) a gwelliant NC60 (Pleidleisiau stryd: ardoll seilwaith cymunedol) wedi'u cynnwys yn y Bil pan gaiff y cydsyniad Brenhinol, rhagwelir y cânt eu hymgorffori yn ein Bil Cydgrynhoi Cynllunio.

**Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog roi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch ei negodiadau â Llywodraeth y DU ynghylch holl ddarpariaethau'r Bil y mae'n argymell gwrthod cydsyniad ar eu cyfer**

Ysgrifennais at Dehenna Davison AS y Gweinidog Ffyniant Bro ar 19 Rhagfyr i esbonio fy marn gadarn o ran Rhan 1 y gallai unrhyw weithredu i gyflawni'r amcanion hyn amharu'n arwyddocaol ar amcanion polisi Llywodraeth Cymru. Roedd fy llythyr yn cynnwys hefyd gais i drafod y materion yn bersonol. Derbyniwyd y cais hwn a daeth y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i gyfarfod ar 22 Mawrth lle ailadroddodd ein gwrthwynebiad i'r darpariaethau.

Er ein bod wedi argymell peidio â chydsynio'r darpariaethau sy'n ymwneud â data cynllunio ac EOR ym Mhennod 1 o Ran 3 a Rhan 5 (Rhan 6 bellach) yn y drefn honno, rydym wedi bod yn gyson â Llywodraeth y DU y byddem yn ail-ystyried ein safbwynt pe bai pwerau gwneud rheoleiddio cyfatebol yn cael eu cynnig i Weinidogion Cymru. Hynny oherwydd y gallai hynny symleiddio gweithdrefnau cydsynio ar gyfer amrywiaeth o brosiectau. Ond heb weld y drafft manwl ni fu'n bosibl ystyried a fyddai'r darpariaethau'n briodol i Gymru.

Wrth eu cyflwyno, cafodd y darpariaethau o ran y data cynllunio ac EOR eu drafftio fel pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig, gydag amod i ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Nid yw hyn yn rhoi unrhyw amddiffyniad cyfansoddiadol, a dyna'r rheswm dros fy argymhelliad. Ers hynny mae Llywodraeth y DU wedi darparu cymalau drafft sy'n cynnig pwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol ac i Weinidogion Cymru. Cynigir arfer y pwerau hyn ar y cyd hefyd. Ond mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cadw'r pŵer cyfyngedig i wneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig, ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Nid yw'r cymalau drafft arfaethedig wedi'u gosod yn ffurfiol. Mae'r cymalau drafft yn parhau'n annerbyniol gan nad ydynt chwaith yn darparu digon o amddiffyniad cyfansoddiadol ac nid ydynt yn cadw at egwyddorion y Cabinet ar bwerau cydredol. Yn y cyfarfod ar y 22 Mawrth, cynigiwyd testun drafft sy'n darparu ar gyfer pwerau cyfatebol, ond nid yw wedi'i dderbyn eto.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

5 Mai 2023

Annwyl Russell,

Diolch am y cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 30 Mawrth mewn cysylltiad â Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru).

Rwyf wedi cymryd y cyfle i ystyried y trawsgrifiad o'r sesiwn, pan godwyd nifer o gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor er mwyn archwilio'r darpariaethau yn y Bil ar gyfer tryloywder a thendro cystadleuol fel rhan o'r gyfundrefn newydd arfaethedig ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

Mae paragraffau 145-146 a 176-177 o'r trawsgrifiad yn cynnwys manylion y drafodaeth ar y camau y bydd angen eu dilyn fel rhan o ymarfer tendro cystadleuol o dan y gyfundrefn gaffael yn y dyfodol ac, yn benodol, sut yr ymdrinnir â'r materion hyn ar wyneb y Bil.

Hoffwn egluro sut y bydd y Bil yn ymdrin â'r mater hwn.

Mae adran 10A(2) o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 – a fyddai'n cael ei mewnosod gan adran 3(2) o'r Bil – yn cynnwys darpariaeth i sicrhau bod rhaid i'r rheoliadau yn y dyfodol bennu'r camau sydd i'w cymryd wrth ddilyn proses dendro gystadleuol. At hynny, mae adran 10A(3) yn nodi bod rhaid i reoliadau yn y dyfodol wneud darpariaeth at ddibenion sicrhau tryloywder a thegwch, sy'n egwyddorion caffael allweddol, yn ogystal â sicrhau y gellir gwirio cydymffurfedd a rheoli gwrthdrawiadau buddiannau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan hynny, nid yw wyneb y Bil ei hun yn nodi'r camau manwl y mae angen i 'awdurdodau perthnasol' eu cymryd wrth ddilyn proses dendro gystadleuol a sicrhau tryloywder o dan y gyfundrefn gaffael newydd arfaethedig. Caiff y camau hyn eu cynnwys fel rhan o'r manylion yn y rheoliadau yn y dyfodol. Ar ôl adolygu'r trawsgrifiad o'r sesiwn a'r ymatebion i'r materion hyn, roeddwn yn awyddus i fanteisio ar y cyfle i egluro'r pwyntiau hyn, er cywirdeb.

Os oes unrhyw gwestiynau pellach, neu ragor o feysydd y mae angen eu hegluro, byddai fy swyddogion a minnau'n falch o ddarparu gwybodaeth yn ôl yr angen er mwyn cefnogi'r Bil wrth iddo fynd drwy broses graffu'r Senedd.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid, er gwybodaeth.

Yn gywir

M. E. Morgan.

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

09 Mai 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n ymwneud â'r pwerau cychwyn ar gyfer y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus.

Rwy'n ddiolchgar ichi am ystyried y Bil hwn a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ei sgil. Bydd creu trosedd ar gyfer y rhai sy'n aflonyddu ar sail rhyw ar ein strydoedd ac yn ein mannau cyhoeddus yn sicrhau bod menywod a merched yn cael y lefel briodol o ddiogelwch. Bydd hefyd yn cyfleu'r neges na fydd ymddygiad o'r fath yn cael ei oddef.

Yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf am amserlen y Bil hwn yn Nhŷ'r Arglwyddi, estynnodd Pwyllgor Busnes y Senedd y dyddiad cau ar gyfer ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i 8 Mehefin. Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn gweithio ar eiriad y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu cytuno ar amserlen i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau er mwyn dechrau'r darpariaethau perthnasol yn y Bil. Bydd hyn ar gael ichi ar y cyfle cyntaf a chyn y dyddiad cau diwygiedig.

Mae diogelu menywod a merched rhag camdriniaeth, mewn mannau cyhoeddus a phreifat, yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae ein Rhaglen Lywodraethu wedi ymrwymo i ehangu'r strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynnwys aflonyddu a cham-drin ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal â'r cartref, er mwyn sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw. Cyhoeddwyd y strategaeth ym mis Mai 2022 ac mae i'w gweld yma: Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026 [HTML] | LLYW. CYMRU.

Dylai menywod a merched fod yn saff ym mhob agwedd ar eu bywydau, gan gynnwys mewn mannau cyhoeddus, a dim ond un rhan o'n huchelgais i gyflawni'r nod hwn yw'r darn hwn o ddeddfwriaeth.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

3 Mai 2023

Annwyl Jane,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus

Fel y gwyddoch, gofynnwyd i'm Pwyllgor ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Gwarchodaeth rhag Aflonyddu ar sail Rhyw yn Gyhoeddus; dechreusom ar ein hystyriaeth yn ein cyfarfod yr wythnos hon.

Gwnaethom nodi ichi ddweud y canlynol ym mharagraffau 24 a 25 o'r Memorandwm:

> *"Mae'r Swyddfa Gartref wedi cynnig Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer defnyddio'r pwerau cychwyn yng nghymal 4 (dim ond i'r graddau y mae'n ymwneud â chychwyn cymalau 1 a 3), lle mae Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn cytuno ar amserlen i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i gychwyn y darpariaethau perthnasol yn y Bil. Yn y cyddestun hwn, er bod hwn yn faes datganoledig, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r Bil wneud darpariaeth ar gyfer Cymru ac i'r Ysgrifennydd Gwladol gadw'r pwerau cychwyn.*
>
> *Bydd copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU ar ddefnyddio'r pwerau cychwyn o fewn cymal 4 o'r Bil ar gael i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad."*

Nid ydym eto wedi derbyn copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cyfeirir ato yn y paragraffau hyn o'r Memorandwm.

O gofio bod angen inni gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 18 Mai, byddwn yn ddiolchgar o gael copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth erbyn bore Mercher 10 Mai.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, gan fod y Memorandwm wedi'i gyfeirio at y pwyllgor hwnnw hefyd.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies, AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder, a'r Cyfansoddiad

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

9 Mai 2023

Annwyl Cadeiryddion

**Bil Amaethyddiaeth (Cymru) – Cyfnod 3 – Yr wybodaeth ddiweddaraf am y Memorandwm Esboniadol**

Cyn dadl Cyfnod 3 ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru) ar 16 Mai, hoffwn eich hysbysu fy mod wedi cyflwyno fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil heddiw. Mae diwygiadau wedi eu gwneud drwy'r Memorandwm Esboniadol gan adlewyrchu'r ymrwymiadau a roddais mewn ymateb i nifer o argymhellion y Pwyllgorau yng Nghyfnod 1 ac i adlewyrchu'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2.

At hynny, mae diweddariad pellach i'r Memorandwm Esboniadol wedi'i gynnwys yn sgil dileu paragraff 7.892 (yn y Memorandwm fel y'i cyflwynwyd) gan ein bod yn deall nad yw'n adlewyrchu polisi cyfredol Rentokill.

Bydd y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 3 a bydd hefyd yn cynnwys gwelliant mewn ymateb i ddeiseb WWF.

Roeddwn yn credu y byddai'n ddefnyddiol darparu manylion mewn perthynas ag argymhellion y Pwyllgorau canlynol, er mwyn ichi gael sicrwydd ein bod wedi ymdrin â hwy'n briodol:

**<u>Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig</u>**

Mewn ymateb i argymhellion 15 ac 16 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, gwnaed diwygiadau i Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 15:** Gwnaed diwygiadau i'r testun naratif i ddangos y bydd disgwyl i Weinidogion adolygu adroddiadau blaenorol ar gyflwr adnoddau naturiol (SoNaRR) os ystyrir bod angen gwneud hynny (gweler Rhan 1, Pennod 3, paragraff 3.89).

**Argymhelliad 16:** Darparwyd rhagor o eglurder, lle bo'n briodol, drwy enghreifftiau ychwanegol o gwmpas amrywiol 'gweithgareddau ategol' o fewn y Memorandwm Esboniadol sydd wedi ei ddiweddaru (gweler Rhan 1, Pennod 3, paragraffau 3.316 i 3.318).

**Y Pwyllgor Cyllid**

Mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Cyllid, mae diwygiadau wedi eu gwneud i destun naratif Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol – Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Argymhelliad 2:** Rydym wedi ychwanegu rhagor o wybodaeth mewn perthynas ag elfennau'r Rhaglen Datblygu Cymru Wledig na chynhwyswyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wrth gyflwyno'r Bil (gweler Rhan 2, Pennod 7, Paragraffau 7.353 i 7.360).

**Argymhelliad 4:** Lle bo'n bosibl mae gwybodaeth ychwanegol wedi ei chynnwys ar gyfer y costau heb eu meintioli, a defnyddir profiad blaenorol i ddarparu dadansoddiad sensitifrwydd i ddangos yr ystod bosibl o gostau (gweler Rhan 2, Pennod 6, tabl Costau heb eu Meintioli ac Anfanteision).

Fel y nodais yn fy ymateb i'r Pwyllgor, nid yw'n bosibl mesur costau ar gyfer rhai o'r pwerau sy'n cael eu cymryd yn y Bil. Er enghraifft, ni allwn wybod pryd y gallai argyfwng ddigwydd, nac ar ba raddfa, felly ni allwn gynllunio ar gyfer pob cost ddisgwyliedig.

**Argymhelliad 7:** Fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu, mae testun ychwanegol wedi ei ychwanegu at yr adran 'camau nesaf' er mwyn rhoi eglurder pellach ynghylch meintioli'r manteision sy'n codi o'r Bil (gweler Rhan 2, Pennod 7, paragraffau 7.638 i 7.641).

**Argymhelliad 8:** Mae rhagor o fanylion am gostau gwelliannau TG wedi eu darparu (gweler Rhan 2, Pennod 7, paragraff 7.359 a thabl 44). Amcangyfrifon yw'r costau hyn yn seiliedig ar ein hasesiad cychwynnol o opsiynau sy'n ymwneud â darparu cynigion dylunio'r cynllun cyfredol.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, mae diwygiadau wedi eu gwneud i Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol.

**Argymhelliad 6**: Mae nifer o ddiweddariadau wedi eu gwneud i'r Memorandwm Esboniadol er mwyn egluro'n glir bwrpas Rhannau 1, 2 a 3 y Bil a'r hyn y mae pob Rhan yn ceisio ei gyflawni (mae'r rhain wedi eu gwneud drwy Ran 1, Pennod 3).

**Argymhelliad 8:** Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi ei adolygu a'i ddiweddaru, fel y bo'n briodol, i ddarparu eglurder pellach ar y berthynas rhwng Rhan 1 a Rhan 2 y Bil ar gyfer rhanddeiliaid (gweler Rhan 1, Pennod 3, paragraff 3.39).

**Gwelliannau Cyfnod 2**

Mae diwygiadau wedi eu gwneud i'r Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol er mwyn cynnwys yr holl welliannau a wnaed i'r Bil ar ddiwedd cyfarfod Cyfnod 2 Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a gynhaliwyd ar 23 Mawrth.

**Amcan cyntaf Rheoli Tir yn Gynaliadwy:** Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r gwelliant a wnaed i'r amcan cyntaf. Mae hyn yn pwysleisio'r cysylltiad rhwng cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy, a gwytnwch busnesau amaethyddol (gweler Rhan 1, Pennod 3, paragraff 3.44 a'r Nodiadau Esboniadol).

**Pŵer i ddarparu cymorth – dibenion ychwanegol:** Mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi eu diweddaru i adlewyrchu'r gwelliant a wnaed i'r rhestr o dan Adran 8, gan ychwanegu 3 diben newydd y gellir darparu cymorth ar eu cyfer (gweler Rhan 1, Pennod 3, paragraff 3.102 i 3.118 a hefyd Rhan 2, Pennod 7, paragraffau 7.592 i 7.637 a'r Nodiadau Esboniadol).

**Gwelliant i'r darpariaethau Gorfodi yn Adrannau 11, 31, 32 a 33**: Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r gwelliannau i'r adrannau hynny i sicrhau cysondeb yn y drafftio drwy'r holl Fil (gweler Rhan 1, Pennod 3 a'r Nodiadau Esboniadol).

**Newidiadau i'r Weithdrefn Gadarnhaol Adrannau 15-18 a 22:** Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r gwelliannau i'r adrannau hyn i nodi eu bod yn cael eu gwneud drwy'r Weithdrefn Gadarnhaol. Mae'r tabl ym Mhennod 5 hefyd wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r gwelliannau hyn (gweler Rhan 1, Pennod 3 a hefyd Pennod 5, tabl 5.1).

**Diffiniad o Fusnes Amaethyddol yn Adran 48:** Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r gwelliant a wnaed i 'ystyr Amaethyddiaeth' i gynnwys busnesau amaethyddol (Gweler Rhan 1, Pennod 3, paragraff 3.315).

**Atodlen 3, cychwyn Rhan 4 o Atodlen 7 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 ar 13 Rhagfyr 2022:** Mae'r Nodiadau Esboniadol wedi eu diweddaru i adlewyrchu'r cyfeiriadau at y paragraffau perthnasol sydd bellach yn anarferedig.

Cofion

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

## Statement by Kemi Badenoch MP, Secretary of State for Department for Business and Trade, to the House of Commons

## Regulatory Reform Update

Statement made on 10 May 2023

[Statement UIN HCWS764]

I am pleased to be able to update the House on the Government's regulatory reform programme, and on amendments that we are tabling to the Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill ('the Bill').

The ability for an independent UK to forge its own place in the world is one of the main reasons the country voted to leave the European Union. This Government is committed to seizing the opportunities following our exit, which is why we are now removing EU laws from the UK statute book.

The Government introduced the Bill so that we could end the special status of retained EU law. It ensures that, for the first time in a generation, the UK's statute book will not recognise the supremacy of EU law or EU legal principles. As the Bill is currently drafted, almost all REUL is automatically revoked at the end of 2023, unless a statutory instrument is passed to preserve it.

Over the past year Whitehall departments have been working hard to identify retained EU law to preserve, reform or revoke. However, with the growing volume of REUL being identified, and the risks of legal uncertainty posed by sunsetting instruments made under EU law, it has become clear that the programme was becoming more about reducing legal risk by preserving EU laws than prioritising meaningful reform. That is why today I am proposing a new approach: one that will ensure ministers and officials can focus more on reforming REUL, and doing that faster.

Today the Government is tabling an amendment for Lords Report, which will replace the current sunset in the Bill with a list of the retained EU laws that we intend to revoke under the Bill at the end of 2023. This provides certainty for business by making it clear which regulations will be removed from our statue book, instead of highlighting only the REUL that would be saved. We will retain the vitally important powers in the Bill that allow us to continue to amend EU laws, so more complex regulation can still be revoked or reformed after proper assessment and consultation. Today we also update the REUL dashboard, available on gov.uk.

We will still fully take back control of our laws and end the supremacy and special status of retained EU law by the end of 2023. We will also make our laws fit for UK purposes: reducing the regulatory burden and controlling the flow of new regulation. We will no longer tie business up in red tape.

I am pleased to say that the Government has already revoked or reformed over 1,000 EU laws since our exit. In addition to the list of around 600 we propose to revoke directly through the REUL Bill, the Financial Services and Markets Bill and the Procurement Bill will revoke around a further 500 pieces of REUL. We are committed to lightening the regulatory burden on businesses and helping to spur economic growth, and our Edinburgh Reforms of UK financial services include over 30 regulatory reforms to unlock investment and boost growth in towns and cities across the UK.

As part of this drive for deregulation, today I can announce that we will make improvements to employment law which could help save businesses around £1 billion a year, while safeguarding the rights of workers. We will consult on cutting unnecessary red tape on recording working hours, streamline engagement with workers when a business transfers to new owners, and provide up to 5 million UK workers greater freedom to switch jobs by limiting non-compete clauses.

The regulatory reform update, 'Smarter Regulation to Grow the Economy', which I am publishing today will be the first in a series of updates on how this Government intends to reform regulations to support economic growth. It sets out improvements to the Better Regulation Framework to ensure that HMG only uses regulation where necessary, and where regulation is used the impacts on wider government priorities including competition and innovation are understood.

Our focus will be on policies that push businesses forward, increase their competitiveness in global markets and spur national growth.

Reforming and ending the special status of retained EU law in the UK is about making sure our laws work for the people who use them. Regulatory reform is integral to the Prime Minister's mission to boost the UK economy; a mission that puts business, consumers, and the British public first.

Linked statement - Statement UIN HLWS751

# Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon